Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	**3 Mehefin 2021**
LLEOLIAD:	Trwy fideogynadledda
TEITL:	**Adroddiad diweddaru am newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac am diweddariadau i'r Cyfansoddiad, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gofynion am i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

CEFNDIR:

Ar 24 Chwefror 2021, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio am Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021')
(gweler y Ddeddf yn https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/contents/enacted/welsh).
Roedd yr adroddiad hwnnw'n amlinellu manylion y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021 sy'n effeithio ar y Pwyllgor.
(Gweler yr adroddiad yn:
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20(c).pdf a'r cofnodion drafft sy'n cynnwys y camau y cytunwyd i'w cymryd yn: https://www.ceredigion.gov.uk/media/8730/audit-24021-final-s.pdf.)

Cyflwynwyd yr adroddiad am Ddeddf 2021 a'r newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021, ac fe benderfynodd y Cyngor wneud yr hyn a ganlyn:
(a) Nodi cynnwys yr adroddiad, a'r dyddiadau gweithredu perthnasol;
(b) Nodi a chymeradwyo newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r swyddogaethau perfformiad a chwynion ychwanegol sy'n weithredol o 1 Ebrill 2021;
(c) Cymeradwyo cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau (lleyg) annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
(d) Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer;
(e) Cymeradwyo'r Disgrifiad Rôl a Manyleb y Person i recriwtio aelodau (lleyg) annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(Gweler yr adroddiad yn:
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Newidiadau%20i'r%20Pwyllgor%20Archwilio%20yn%20unol%20a%20Deddf%20Llywodr

aeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20(Cymru)%202021.pdf a chofnodion drafft cyfarfod y Cyngor yn:
https://www.ceredigion.gov.uk/media/8975/cofnodion-ddrafft-18032021-saesneg-final.pdf.)

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Y Cyfansoddiad
Mae Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Cyfansoddiad, cyn cynnig y newidiadau hynny i'r Cyngor eu cymeradwyo.

Ymhlith y newidiadau a drafodwyd ac a gymeradwywyd gan y Gweithgor ar y Cyfansoddiad mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2021 o ran y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roedd:

(a) Diweddaru'r cyfeiriadau at y 'Pwyllgor Archwilio' i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' drwy'r Cyfansoddiad;
(b) Cynnwys dyletswyddau/swyddogaethau newydd y Pwyllgor yn y Cyfansoddiad, gan gynnwys paratoi testun i'w gynnwys yn y Cyfansoddiad ym mis Mai 2022, sef y dyddiad y bydd y dyletswyddau o ran yr asesiadau o berfformiad gan banel yn cychwyn;
(c) Paratoi testun i'w gynnwys yn y Cyfansoddiad o ran y newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor (gan gynnwys newidiadau i'r Cadeirydd/Is-gadeirydd);
(d) Nodi gweithdrefn bleidleisio'r Pwyllgor yn glir yn y Cyfansoddiad (bydd angen ei hystyried ymhellach, gan gynnwys gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd).

(Gweler **Atodiad 1(a)** i **(f)** – newidiadau drafft i'r Cyfansoddiad.)

Recriwtio aelodau lleyg

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 24 Chwefror 2021, cytunwyd i ddechrau ar y broses o recriwtio aelodau lleyg. Cadarnhawyd aelodau'r panel i ddethol y rhestr fer, ac mae'r broses recriwtio wedi dechrau, gan gynnwys hysbysebu'r swyddi (a bwriedir cynnal cyfweliadau ar 27 Mai 2021). Felly, mae'r broses recriwtio ar y trywydd iawn i fodloni'r amserlen recriwtio arfaethedig (gweler yr amserlen sydd wedi'i hatodi at yr adroddiad i'r Cyngor uchod). Rhoddir diweddariad pellach maes o law.

Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021 – Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi bod endidau cyfreithiol a elwir yn gyd-bwyllgorau corfforedig yn cael eu sefydlu o dan Ran 5 o Ddeddf 2021 ac y byddant yn cyflogi staff, yn cyfethol aelodau ac yn cael eu cyllidebau eu hunain.

Daeth Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 ('y Rheoliadau Cyffredinol') i rym ar 1 Ebrill 2021, ac maent yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau o ran trefniadau gweinyddol a threfniadau llywodraethu cyffredinol y cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf 2021. (Gweler y Rheoliadau Cyffredinol yn:
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/327/made/welsh.
Gweler Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau Cyffredinol yn:
https://senedd.cymru/media/j5dgem0y/sub-ld14143-em-w.pdf.)

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Rheoliadau drafft i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig, a'r drefn reoleiddio ehangach y bwriedir iddi fod yn berthnasol i'r cyd-bwyllgorau corfforedig.

Bydd y cyd-bwyllgorau corfforedig yn gallu arfer swyddogaethau o ran llunio cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, a byddant hefyd yn gallu mynd ati i hybu llesiant economaidd eu hardaloedd.

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021 ('Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth') (gweler y Rheoliadau yn https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/342/made a'r Memorandwm Esboniadol yn https://senedd.cymru/media/qmmd2or1/sub-ld14137-em-w.pdf) wedi sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Daeth Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth i rym ar 1 Ebrill 2021, ac eithrio rheoliadau 11, 12, 13 a 15 a fydd yn dod i rym ar 30 Mehefin 2022. Mae rheoliadau 11-13 yn ymwneud â'r swyddogaethau (gweler uchod) a roddir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ac mae rheoliad 15 yn caniatáu iddynt ddirprwyo swyddogaethau i is-bwyllgor.

Rhaid i'r cyd-bwyllgorau corfforedig bennu eu cyllidebau cyntaf erbyn mis Ionawr 2022, a rhaid iddynt ymgymryd â'r swyddogaethau newydd erbyn mis Mai 2022.

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r paragraffau a ganlyn o'r Atodlen i Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ('yr Atodlen'):

Mae **paragraff 16** yn cadarnhau bod rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth sefydlu is-bwyllgor (a elwir yn is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio) i:
(a) adolygu materion ariannol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth a chraffu arnynt;
(b) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion mewn perthynas â materion ariannol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;
(c) adolygu ac asesu trefniadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol;
(d) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
(e) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;
(f) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a lunnir gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;
(g) arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth.

Mae **paragraff 16(2)** hefyd yn cadarnhau bod rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, pan fydd yn penodi aelodau'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, sicrhau—
(a) bod o leiaf un aelod o'r is-bwyllgor yn berson nad yw'n aelod o gyngor sir, nac o gyngor bwrdeistref sirol, yng Nghymru,
(b) y cyfansoddir o leiaf ddau draean o'r aelodaeth gan aelodau o'r cynghorau cyfansoddol (ond nid aelodau o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol), ac
(c) nad yw unrhyw un o aelodau o'r is-bwyllgor—
(i) yn aelod cyngor,
(ii) yn gyfranogwr cyfetholedig, nac
(iii) yn aelod o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol.

Mae **paragraff 16(3)** yn datgan mai ystyr 'cyfranogwr cyfetholedig' yw person a gyfetholir—
(a) yn aelod o is-bwyllgor ac eithrio'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, neu

(b) i gyfranogi yng ngweithgareddau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ac eithrio gweithgareddau'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

Mae **paragraff 16(4)** o'r Atodlen yn datgan na chaiff yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio arfer ei swyddogaethau os yw aelodaeth yr is-bwyllgor yn torri gofynion is-baragraff (2), ac mae **paragraff 16(5)** o'r Atodlen yn datgan bod rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n rheoleiddio dull yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio o arfer ei swyddogaethau.

Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth yn pennu aelodaeth ei Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio maes o law, a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am hyn. Disgwylir y gall rhai o aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor fod yn aelodau o'r is-bwyllgor.

A gyflawnwyd Asesiad Effaith Integredig? Naddo
Os na, rhowch reswm
Crynodeb: *Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â newid i bolisi na strategaeth.*

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Hirdymor: Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a rheoliadau amrywiol a wneir yn ei sgil yn effeithio ar anghenion yn y tymor byr a'r tymor hir pan fydd deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno. Felly, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i ystyried deddfwriaeth o'r fath a'i heffeithiau.

Integreiddio: Annog cyfrifoldeb byd-eang o ran y cyfle i ystyried deddfwriaeth newydd (mae llesiant economaidd hefyd yn berthnasol i'r cyd-bwyllgorau corfforedig newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Cydweithio: Cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

Cynnwys: Amherthnasol o safbwynt y Cyngor, ond gall fod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru o ran cynnwys yn yr ymgynghoriad unigolion a chanddynt ddiddordeb yn y nodau llesiant.

Atal: O gael cyfle i ystyried deddfwriaeth newydd, gall arwain at newidiadau cadarnhaol i drefniadau llywodraethu, atal problemau rhag gwaethygu a helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni amcanion llesiant drwy wella eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu.

ARGYMHELLIAD:

Bod y Pwyllgor yn nodi:

1) gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad;
2) y broses sy'n mynd rhagddi i recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor;
3) y gofyniad am i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Monitro trefniadau llywodraethu'r Awdurdod Lleol yn unol â newidiadau deddfwriaethol.

Enw cyswllt:	Elin Prysor
Swydd:	Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu, a'r Swyddog Monitro
Acronymau:	Amherthnasol
Dyddiad yr adroddiad:	6/5/2021
Atodiadau:	**Atodiad 1(a) i (f)**: dyfyniad o'r Cyfansoddiad
Papurau cefndir:	Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Chwefror 2021: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20(c).pdf Cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021: https://www.ceredigion.gov.uk/media/8730/audit-24021-final-s.pdf Adroddiad i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Newidiadau%20i'r%20Pwyllgor%20Archwilio%20yn%20unol%20a%20Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20(Cymru)%202021.pdf Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021: https://www.ceredigion.gov.uk/media/8975/cofnodion-ddrafft-18032021-saesneg-final.pdf
Pwerau statudol:	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/enacted/welsh Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/327/made/welsh Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021: https://senedd.cymru/media/j5dgem0y/sub-ld14143-em-w.pdf Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021: https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/342/made/welsh Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021: https://senedd.cymru/media/qmmd2or1/sub-ld14137-em-w.pdf

RHAN 2

ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

9.2 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

9.2.1 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r rolau a'r swyddogaethau a ganlyn yr ymhelaethir arnynt yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 3.3 (Tabl 3):

9.2.1.1 Rhoi ffocws annibynnol lefel uchel ar drefniadau'r Cyngor o ran archwilio, sicrwydd ac adrodd;

9.2.1.2 Mynd ati'n annibynnol i adolygu materion sy'n ymwneud â llywodraethu da, goruchwyliaeth ariannol, rheoli risgiau, gweithdrefnau/trin cwynion, a rheolaeth fewnol o ran y modd y mae gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu rhoi ar waith, a rhoi cyngor i'r Cyngor a'r Cabinet, a'u Pwyllgorau a'u Swyddogion, yn eu cylch;

9.2.1.3 Sicrhau bod systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor yn effeithiol, gan gynnwys y trefniadau i sicrhau gwerth am arian, i gefnogi safonau a moeseg, ac i reoli'r graddau y mae'r awdurdod yn agored i risgiau twyll a llygredd, a sicrhau bod gwasanaethau archwilio mewnol y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt;

9.2.1.4 Adolygu adroddiadau ac argymhellion sy'n ymwneud â materion ariannol y Cyngor, craffu arnynt a chyhoeddi adroddiadau yn eu cylch;

9.2.1.5 Adolygu adroddiadau ac argymhellion sy'n ymwneud â phriodoldeb trefniadau'r Cyngor o ran rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, craffu arnynt a chyhoeddi adroddiadau yn eu cylch;

9.2.1.6 Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor a pherthynas y Cyngor â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys cefnogi cysylltiadau effeithiol rhwng y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol, adolygu barn yr archwilydd allanol a'i adroddiadau i'r aelodau, a monitro'r camau a gymerir gan y rheolwyr yn sgil y materion a godir gan yr archwilydd allanol;

9.2.1.7 Goruchwylio adroddiadau ariannol y Cyngor ac adolygu ei ddatganiadau ariannol;

9.2.1.8 Adolygu ac asesu hunanasesiad blynyddol drafft y Cyngor a'i ymateb drafft i unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol;

9.2.1.9 Ymlynu wrth drefniadau atebolrwydd, gan gynnwys adrodd am drefniadau a pherfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyhoeddi adroddiad blynyddol am waith y Pwyllgor.

9.2.2 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

9.2.2.1 Aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Ar hyn o bryd, mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys chwe Chynghorydd Sir ac un Aelod Lleyg.

9.2.2.2 Cadeirio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Ar hyn o bryd, mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Gynghorwyr Sir sy'n aelodau o Grŵp yr Wrthblaid.

9.2.3 Cworwm

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gworwm oni fydd o leiaf dri aelod yn bresennol.

Atodiad 1(b) Dyfyniad o'r newidiadau drafft i Ran 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad gan gynnwys newidiadau Mai 2022

RHAN 2

ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

ERTHYGL 9 – Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

….

~~9.1~~9.2 Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

…

9.2.1.8 Adolygu ac asesu hunanasesiad blynyddol drafft y Cyngor, yr asesiad o berfformiad gan banel a'r ymateb drafft i unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol; ac

9.2.1.9 Ymlynu wrth drefniadau atebolrwydd, gan gynnwys adrodd am drefniadau a pherfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyhoeddi adroddiad blynyddol am waith y Pwyllgor.

9.2.2 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

9.2.2.1 Aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys yr aelodau a ganlyn:

9.2.2.1.1 Mae o leiaf draean o'r aelodau yn 'aelodau lleyg'. At ddibenion aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ystyr aelod lleyg yw unigolyn nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben ar y dyddiad y penodir yr unigolyn hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac nad yw'n briod nac yn bartner sifil i unrhyw aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd) ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig; a

9.2.2.1.2 Mae gweddill yr aelodaeth yn Gynghorwyr Sir.

9.2.2.2 Cadeirio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dewis ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd a:

9.2.2.2.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg.

9.2.2.2.2 Ni fydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod o weithrediaeth y Cyngor nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth.

9.2.2.2.3 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor, neu os na fydd y Cadeirydd yn bresennol, gan ei Is-gadeirydd. Os na fydd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol, caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio benodi aelod o'r Pwyllgor nad yw'n aelod o weithrediaeth y Cyngor nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth i gadeirio'r cyfarfod.

Atodiad 1(c) Dyfyniad o'r newidiadau drafft i Ran 3 Erthyglau'r Cyfansoddiad

RHAN 3

CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

...

Pwyllgor	Swyddogaethau	Dirprwyo Swyddogaethau
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (6 Chynghorydd Sir ac 1 Aelod Lleyg)	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl 2018 Datganiad o Ddiben 1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol o'r lefel uchaf ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu a safonau ariannol da. 2. Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn a rheoli digonolrwydd y fframwaith rheoli risgiau a'r amgylchedd rheoli mewnol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o fframweithiau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth y Cyngor ac mae'n goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a'r prosesau llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol wedi'u rhoi ar waith. Llywodraethu a rheoli risgiau 3. Cael trosolwg o Gyfansoddiad y Cyngor o ran y canlynol: Rheolau Gweithdrefn Contractau, Rheoliadau Cyllid a'r Cod Ymddygiad. 4. Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y fframwaith moesegol ac ystyried y cod llywodraethu lleol. 5. Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risgiau a sicrwydd ategol yn briodol, gan gymryd i ystyriaeth farn archwilio mewnol ar	Dim

	ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth. 6. Ystyried trefniadau'r Cyngor ynghylch sicrhau gwerth am arian gan adolygu'r sicrwydd a'r asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn. 7. Ystyried fframwaith y Cyngor o ran sicrwydd a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol. 8. Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol trefniadau rheoli risgiau yn y Cyngor. 9. Monitro'r cynnydd a wneir wrth fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â risgiau sy'n cael eu hadrodd i'r pwyllgor. 10. Ystyried adroddiadau ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith. 11. Adolygu'r asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a'r niwed posibl i'r Cyngor o ran twyll a llygredd. 12. Monitro'r strategaeth atal twyll, y camau gweithredu a'r adnoddau 13. Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd o ran partneriaethau neu gydweithio sylweddol, lle bo hynny'n berthnasol. 14. Ystyried y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol 15. Ystyried Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor. 16. Adolygu ac asesu'r asesiad o berfformiad gan banel y Cyngor. 17. Ystyried Adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor gan wneud argymhellion ar gyfer newid. ~~15.~~ Archwilio Mewnol ~~16.~~ 18. Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol. ~~17.~~ 19. Ystyried cynigion a wneir o ran penodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.	

Formatted: English (United Kingdom)

Formatted: English (United Kingdom)

Formatted: English (United Kingdom)

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

	~~18.~~20.Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risgiau gan gynnwys y gofynion o ran adnoddau archwilio mewnol, y dull o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd ac unrhyw waith sydd ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny. ~~19.~~21.Cymeradwyo newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risgiau a'r gofynion o ran adnoddau. ~~20.~~22.Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol er mwyn penderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau. ~~21.~~23.Ystyried adroddiadau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar berfformiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad y darparwyr allanol o wasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys: a. Y wybodaeth ddiweddaraf ar waith archwilio mewnol gan gynnwys y canfyddiadau allweddol, y materion sy'n peri pryder a'r camau gweithredu sydd ar waith o ganlyniad i waith archwilio mewnol. b. Adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella. c. Adroddiadau ynghylch achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ddigon arwyddocaol bod yn rhaid eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. ~~22.~~24.Ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynglŷn â'r canlynol: a. Datganiad ynghylch y lefel cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain	

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

	yn dangos pa mor ddibynadwy yw casgliadau'r archwiliad mewnol. b. Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn honno - bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. ~~23.~~25.Ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn. ~~24.~~26.Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd iddynt ar waith. ~~25.~~27.Cyfrannu at y rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella ac yn benodol, asesu ansawdd allanol yr archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. ~~26.~~28.Ystyried adroddiad ynghylch effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, pan fo Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gwneud hynny'n ofynnol. ~~27.~~29.Cefnogi trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda'r pennaeth archwilio. ~~28.~~30.Comisiynu gwaith gan Archwilwyr Mewnol <u>Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr</u> ~~29.~~31.Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol, a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. ~~30.~~32.Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwilydd allanol. ~~31.~~33.Gwneud sylwadau am gwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian. ~~32.~~34.Comisiynu gwaith gan Archwilwyr Allanol. ~~33.~~35.Cynghori ac argymell ynghylch effeithiolrwydd y berthynas rhwng	

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

	archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill. 36.Ystyried adroddiadau gan reoleiddwyr allanol (gan gynnwys y canlynol ond nid yn gyfyngedig iddynt: Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Estyn). ~~34.~~37. Ystyried unrhyw Adroddiad a ddaw i law oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag ymateb drafft y Cyngor. Adroddiadau Ariannol ~~35.~~38. Adolygu'r datganiad cyfrifon blynyddol a'r adroddiadau cysylltiedig. Yn benodol, ystyried a yw'r polisïau cyfrifyddu priodol wedi eu dilyn ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn at sylw'r Cyngor. ~~36.~~39. Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon. Trefniadau Atebolrwydd ~~37.~~40.Cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â chanfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu llywodraethu, rheoli risgiau a fframweithiau rheoli mewnol; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol. ~~38.~~41.Rhoi gwybod i'r cyngor llawn am berfformiad y Pwyllgor Archwilio o ran y cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddiben. ~~39.~~42.Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor. Adroddiadau Perfformiad 43.Ystyried adroddiad am y gweithgareddau o ran canmoliaethau, cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. ~~40.~~44. Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i drin cwynion yn effeithiol.	

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

Atodiad 1(d) Dyfyniad o'r newidiadau drafft i Ran 3 y Cyfansoddiad gan gynnwys newidiadau Mai 2022

RHAN 3

CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

Pwyllgor	Swyddogaethau	Dirprwyo'r Swyddogaethau
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio **(x Aelod Lleyg a x Cynghorydd Sir – 1 o bob 3 yn aelodau lleyg)**	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl 2018 ….. Llywodraethu a rheoli risgiau … ~~18. Ystyried yr Adroddiad ynghylch yr Asesiad o Berfformiad gan Banel ac ymateb drafft y Cyngor.~~ …..	Dim

Formatted: Font color: Red

Formatted: Font color: Red

Formatted: Font color: Red

Formatted: Font color: Red

Formatted: Font color: Red

Atodiad 1(e) Dyfyniad o'r newidiadau drafft i Ran 4B y Cyfansoddiad

Dogfen B

RHEOLAU GWEITHDREFN MYNEDIAD AT WYBODAETH

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a gwasanaeth:
Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 19 Mawrth 2019
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad adolygu:

….

1. CWMPAS

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Moeseg a Safonau, y Pwyllgor Rheoli Datblygu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trwyddedu a'r Pwyllgor Rhestr Fer ac unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus eraill.

Formatted: Normal, Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm, Right: 0 cm, Space After: 8 pt, Line spacing: Multiple 1.08 li

Atodiad 1(f) Dyfyniad o'r newidiadau drafft i Ran 4F y Cyfansoddiad

Dogfen F

Y RHEOLIADAU ARIANNOL A'R GWEITHDREFNAU ARIANNOL CYSYLLTIEDIG

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Prif Swyddog Cyllid: Stephen Johnson
Pwyllgor Archwilio: 17 Hydref 2017
Dyddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor: 22 Mawrth 2018
Asesiad Effaith Integredig (Oes/Nac Oes):
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad Adolygu'r Polisi:

…

Committees

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac –Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol o'r lefel uchaf i gefnogi trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
.

…

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

- Sicrhau bod Siarter y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn caniatáu i'r Adain wneud y canlynol:
- cael mynediad i unrhyw un o safleoedd neu dir y Cyngor ar unrhyw adeg resymol,
- cael mynediad at yr holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw un o drafodon ariannol neu drafodion eraill y Cyngor,
- gofyn am unrhyw wybodaeth ac eglurhad y tybir eu bod yn angenrheidiol ynghylch unrhyw fater y mae'n ei ystyried / archwilio gan dderbyn y wybodaeth honno,
- gofyn i unrhyw un o gyflogeion y Cyngor gyfrif am arian, nwyddau neu unrhyw eiddo arall sydd yng ngofal y Cyngor,
- cael mynediad at gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, fel contractwyr neu asiantaethau partneriaethol yn unol â'r telerau contractiol perthnasol.
- Mae gan y Prif Archwilydd Mewnol fynediad uniongyrchol at Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Aelodau.
- Mae gofyn i'r Prif Archwilydd Mewnol roi barn archwilio flynyddol ynglŷn â sicrwydd, ac fe'i galluogir i wneud hynny.
- Sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i ymchwilio'n brydlon i unrhyw dwyll, afreoleidd-dra neu gamymddygiad a ddrwgdybir.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion - Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn
RHAN 4 DOGFEN F Rheoliadau Ariannol
Diweddarwyd – Mai 2021